

GWNEWCH Y PETHAU BYCHAIN

Pe bai Uchtryd ab Edwin a Hywel ab Gronw heb fod mor hygoelus yn 1094 mae'n debyg y byddai de Sir Benfro wedi para'r un mor Gymraeg â gogledd y sir hyd heddiw – dyna ddywedwyd yn Nhyddewi wrth i Fenter Iaith Sir Benfro lansio adnodd iaith newydd ar ddydd Gwener, Mawrth 4. 2011.

Trechwyd arweinwyr y lluoedd Cymreig a geisiai adfeddiannu castell Penfro o law'r Norman, Gerald de Windsor, trwy dwyll. Caniatawyd i'r Cymry weld llythyr a anfonwyd wrth Gerald at ei gyfeillion yn honni nad oedd angen cymorth milwrol arno a'i fod ar ben ei ddigon o ran porthiant. Ni sylweddolai'r Cymry mai llythyr ffug oedd yn eu dwylo.

Er mwyn parhau â'r twyll taflwyd darnau o gig moch dros y parwydydd. Ildiodd y Cymry gan roi'r gorau i'r gwarchae wedi dioddef colledion enbyd. Doedden nhw ddim yn sylweddoli fod lluoedd Gerald, mewn gwirionedd, ar eu cythlwg a heb yr un porchell ar ôl i'w rostio.

Oni bai am hynny mae'n bosib na fyddai'r Normaniaid wedi sicrhau troedle mor gadarn yn yr ardal, fyddai Penfro erioed wedi'i gwneud yn balatin brenhinol a byddai'r Ffleminaid erioed wedi ymsefydlu yn y cyffiniau. Byddai Bullslaughter Bay wedi parhau'n Fae Pwllstrodur a Crickmarren wedi parhau'n Crug-y-maharen.

Wrth lansio'r adnodd 'Gwnewch y Pethau Bychain' dywedwyd y gall gymryd pump neu chwe chenhedlaeth i adfer y Gymraeg yn ne'r sir trwy annog pawb i wneud defnydd o'r iaith, pa mor fychan bynnag y bo'r defnydd ohoni, ar bob cyfle posib.

Yn lansio'r adnodd yn swyddogol roedd Mari Grug, sy'n wyneb cyfarwydd ar S4C fel 'rhoces y tywydd'. Mae Mari'n hanu o Fynachlog-ddu, yng nghanol y Preselau, ac yn medru brolio ei bod yn llinach Twm Carnabwth, arweinydd

mintai'r Beca a ymosododd ar dollborth Efail-wen yn 1839. Roedd ei hen-hen-hen dad-cu yn gefnder i Thomas Rees.

“Dwi'n cefnogi'r ymgyrch i annog pobl i wneud y pethau bychain - defnyddio'r Gymraeg wrth ateb y ffôn a defnyddio'r iaith wrth osod arwydd ar ben y feidr ac mewn cyfarfodydd cyhoeddus. Mae'r pethau bach yn cyfrif yn y pen draw os ydyn ni am weld yr iaith yn ffynnu,” meddai.

Yn cynorthwyo i lansio'r adnodd roedd gŵr ifanc nad oes arlliw o waed Cymreig yn ei wythiennau a than wyth mlynedd nôl roedd yn byw ym mherfeddion Lloegr. Ond ers symud i bentref Y Glôg, ger Crymych, dysgodd Jack Pulman-Slater Gymraeg i'r graddau nes iddo ennill Medal Lenyddiaeth y Dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd yn 2010.

Er ei fod yn siaradwr rhugl erbyn hyn dywed mai 'dysgwr' fydd e weddill ei oes oherwydd nad y Gymraeg yw ei famiaith ac am nad yw wedi'i drwytho mewn Cymreictod o ran ei gefndir.

“Ond dwi'n cefnogi pob ymdrech i berswadio pobl Cymru i wneud mwy o ddefnydd o'r iaith. Wedi'r cyfan ei hiaith nhw yw hi. Nhw yw dyfodol yr iaith ond hoffwn feddwl, ar yr un pryd, fod gan ddysgwyr fel fi ran i'w chwarae yn nyfodol yr iaith hefyd,” meddai.

Ond doedd Jack ddim yn y lansiad ei hun yn Nhyddewi a hynny am ei bod yn ddiwrnod Eisteddfod yn yr ysgol ac yntau am ddefnyddio ei Gymraeg yn y fan honno!

Mae'r adnodd 'Gwnewch y Pethau Bychain' ar gael ar ffurf CD neu gellir ei lawr lwytho o'r gwefan hwn.